**CYPE(6)-04-22 - Papur i'w nodi 15**

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

18 Ionawr 2022

Annwyl Weinidog

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau**

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Phlant, Pobl Ifanc ac Addysg wrthi'n craffu ar hyn o bryd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar 6 Rhagfyr 2021. Er mwyn llywio ein trafodaethau, byddem yn croesawu eich ymateb i'r materion a nodir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Er mwyn ein galluogi i drafod eich barn yn unol â'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad a bennwyd gan Bwyllgor Busnes y Senedd, byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn dydd Gwener 28 Ionawr 2022 fan bellaf.

Yn gywir

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad

Er mwyn llywio gwaith craffu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau ("y Bil"), byddem yn croesawu eich barn am y materion a restrir isod.

Er mwyn ein galluogi i drafod eich barn yn unol â'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad a bennwyd gan Bwyllgor Busnes y Senedd, byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn dydd Gwener 28 Ionawr 2022 fan bellaf.

### Trafodaethau â Llywodraeth y DU

1. Y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda Llywodraeth y DU, gan gynnwys manylion unrhyw sicrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio neu ddiwygiadau y mae'n eu cynnig, neu gytundebau a wnaed gyda Llywodraeth y DU. Byddem hefyd yn ddiolchgar o dderbyn copïau o unrhyw ohebiaeth berthnasol â Llywodraeth y DU ar y materion hyn.

### Pryderon Llywodraeth Cymru am y Memorandwm

Mae'r Memorandwm yn nodi bod gan Lywodraeth Cymru nifer o bryderon am y Bil. Byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am bryderon Llywodraeth Cymru mewn perthynas â:

2. Cyfansoddiad a swyddogaethau'r Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol, a natur yr effaith negyddol bosibl ar Blant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches yng Nghymru.

3. Y goblygiadau a ragwelir o ganoli'r broses asesu oedran ar y gwaith o asesu anghenion a darparu gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a pha swyddogaethau pellach, os o gwbl, y gellid eu gosod ar awdurdodau Cymru.

4. Pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch defnyddio dulliau gwyddonol mewn asesiadau pennu oedran a rheoliadau ynghylch yr asesiadau, gan gynnwys:

a. y broses apelio;

b. unrhyw oblygiadau i weithrediad Llywodraeth Cymru o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;

c. unrhyw oblygiadau i iechyd meddwl unigolion sy'n destun technegau gwyddonol o asesu oedran;

d. unrhyw oblygiadau i gydlyniant cymunedol a fyddai'n codi'n uniongyrchol o ganlyniad i roi unigolion drwy dechnegau asesu oedran gwyddonol.

## Goblygiadau ariannol

5. Gwybodaeth bellach am y goblygiadau ariannol posibl sy’n gysylltiedig â’r darpariaethau yn y Bil, a sut y cânt eu cynnwys yng ngwaith cynllunio ariannol Llywodraeth Cymru.